

# All Afloat

## Cystadleuaeth Turn the Tide on Plastic

### Telerau ac Amodau

1. Yr hyrwyddwr yw: RYA Cymru Wales, y mae ei swyddfa gofrestrdedig yn 8 Llys-y-Môr, Plas Menai, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1UE
  2. Mae'r gystadleuaeth yn agored i blant ysgol sy'n mynychu ysgol Gymraeg ac ym Mlwyddyn 6 neu iau.
  3. Nid oes ffi mynediad ac nid oes angen prynu dim byd i fod yn rhan o'r gystadleuaeth hon.
  4. Drwy gymryd rhan yn y gystadleuaeth hon, mae'r ymgeisydd yn nodi ei fod yn cytuno i'r telerau ac amodau hyn.
  5. Mae manylion sut i gymryd rhan yn y gystadleuaeth ar gael drwy <https://allafloat.wales/2018/04/27/turn-the-tide-on-plastic/>
  6. Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio fydd hanner nos Nos Sul 13<sup>eg</sup> Mai 2018. Ni chaniateir i unrhyw gais arall fod yn rhan o'r gystadleuaeth ar ôl y dyddiad hwn.
  7. Nid oes modd derbyn unrhyw gyfrifoldeb am geisiadau nad ydynt wedi'u derbyn am ba reswm bynnag.
  8. Mae rheolau'r gystadleuaeth a sut mae cymryd rhan fel a ganlyn:
  9. Bydd dwy wobwr a gallwch geisio ennill un neu'r ddwy ohonynt, yn dibynnu ar eich lleoliad daearyddol.
    - a. Yn agored i unrhyw ysgol neu grŵp yng Nghymru:  
Adeiladu a thynnu llun o gerflun sydd wedi'i wneud o blastig sydd wedi'i daflu ar draeth, mewn afon neu lyn. Rhaid i'r cerflun gyfleu thema 'Blwyddyn y Môr Cymru'. E-bostiwch, postiwch neu rannu eich llun ag RYA Cymru Wales
    - b. Yn agored i unrhyw ysgol neu grŵp o fewn 30 milltir i Harbwr Caerdydd:  
Cyflwyno paragraff byr (200 o eiriau) yn nodi pam eich bod yn meddwl y dylai rhai o griw 'Turn the Tide on Plastic' ymweld â'ch ysgol neu'ch grŵp chi. Anfonwch e-bost i: [info@allafloat.wales](mailto:info@allafloat.wales)
- Rhaid i bob ymgeisydd ddilyn @AllAfloat a @turntideplastic ar Twitter er mwyn cymryd rhan.
10. Mae'r hyrwyddwr yn cadw'r hawl i ganslo neu newid y gystadleuaeth a'r telerau ac amodau hyn heb rybudd pe bai trychineb, rhyfel, anhrefn sifil neu filwrol, gweithred gan Dduw neu unrhyw achos o dorri unrhyw gyfraith neu reoliad perthnasol gwirioneddol neu ddisgwyliedig neu unrhyw ddiwyddiad arall y tu hwnt i reolaeth yr hyrwyddwr. Bydd yr hyrwyddwr yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr am unrhyw newid i'r gystadleuaeth cyn gynted â phosibl.
  11. Mae penderfyniad RYA Cymru Wales o ran pwy sy'n cael cymryd rhan a dewis yr enillwyr yn derfynol. Ni fydd unrhyw ohebiaeth yn ymwneud â'r gystadleuaeth yn cael ei chyflwyno.

12. Bydd gan RYA Cymru Wales yr hawl, yn ôl ei ddisgresiwn ei hun ac ar unrhyw adeg, i newid neu addasu'r telerau ac amodau hyn, a bydd newid o'r fath yn dod i rym yn syth ar ôl ei bostio ar y dudalen we hon.
13. Mae RYA Cymru Wales hefyd yn cadw'r hawl i ganslo'r gystadleuaeth os bydd amgylchiadau'n codi sydd y tu hwnt i'w reolaeth.
14. Nid yw'r hyrwyddwr yn gyfrifol am fanylion gwobr anghywir sy'n cael eu darparu i unrhyw ymgeisydd gan unrhyw drydydd parti sy'n gysylltiedig â'r gystadleuaeth hon.
15. Mae'r wobwr fel a ganlyn:
  - a. Galwad skype 2 i 3 munud gyda chriw Turn the Tide on Plastic wrth iddynt groesi Cefnfor Iwerydd. Bydd y dyddiad a'r amser yn cael ei gadarnhau ac yn dibynnu ar yr amodau.
  - b. Ymweliad gan aelod o griw Turn the Tide on Plastic ag ysgol o fewn 30 milltir i Gaerdydd.
16. Mae'r wobwr wedi'i nodi ac ni chynigir arian parod na dewisiadau eraill. Nid oes modd trosglwyddo'r gwobrau. Mae'r gwobrau yn amodol ar argaeledd ac rydym yn cadw'r hawl i roi unrhyw wobwr yn eu lle heb rybudd.
17. Bydd yr enillywr yn cael eu dewis gan banel o feirniaid y bydd yr Hyrwyddwr wedi'u penodi ac maent yn debygol o gynnwys ymddiriedolwyr elusen All Afloat ac aelodau o griw Ras Cefnfor Volvo.
18. Bydd yr enillydd yn cael gwybod drwy e-bost a/neu neges uniongyrchol (DM) ar Twitter/Facebook a/neu lythyr cyn pen 5 diwrnod i'r dyddiad cau. Os nad oes modd cysylltu â'r enillydd neu oni fydd yn hawlio'r wobwr cyn pen 2 ddiwrnod i'r hysbysiad, rydym yn cadw'r hawl i dynnu'r wobwr yn ôl gan yr enillydd a dewis enillydd yn ei le.
19. Bydd yr hyrwyddwr yn rhoi gwybod i'r enillydd sut gall gael gafael ar y wobwr.
20. Bydd penderfyniad yr hyrwyddwr o ran yr holl faterion sy'n ymwneud â'r gystadleuaeth yn derfynol ac ni fydd unrhyw ohebiaeth yn cael ei chyflwyno.
21. Drwy gymryd rhan yn y gystadleuaeth hon, mae'r ymgeisydd yn nodi ei fod yn cytuno i'r telerau ac amodau hyn.
22. Bydd y gystadleuaeth a'r telerau ac amodau hyn yn cael eu llywodraethu gan gyfraith [Lloegr] a bydd unrhyw anghydfod yn ddarostyngedig i awdurdodaeth unigryw llysoedd [Lloegr].
23. Mae'r enillydd yn cytuno i'w enw a'i lun gael eu defnyddio mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd, yn ogystal â'i gais. Bydd unrhyw ddata personol ynghylch unrhyw ymgeisydd arall yn cael eu defnyddio yn unol â deddfwriaeth diogelu data bresennol [y DU] yn unig ac ni fyddant yn cael eu datgelu i drydydd parti heb ganiatâd ymlaen llaw yr ymgeisydd.
24. Bydd enw'r enillydd ar gael am 14 diwrnod ar ôl y dyddiad cau drwy e-bostio'r cyfeiriad canlynol:  
[info@all-afloat.wales](mailto:info@all-afloat.wales)
25. Bydd cymryd rhan yn y gystadleuaeth yn cael ei ystyried fel bod yr ymgeisydd yn derbyn y telerau ac amodau hyn.
26. Nid yw'r gwaith hyrwyddo hwn yn cael ei noddi, ei gefnogi na'i weinyddu gan Facebook, Twitter nac unrhyw Rwydwaith Cymdeithasol arall mewn unrhyw ffordd, ac nid yw'n gysylltiedig â nhw. Rydych chi'n rhannu eich gwybodaeth ag RYA Cymru Wales ac nid ag unrhyw barti arall. Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei darparu'n cael ei defnyddio ar y cyd â'r Polisi Preifatrwydd canlynol y gellir ei ddarllen yn <https://all-afloat.wales/privacy-policy/>